

Annwyl Seneddwyr,

Grwpiau cymdeithas sifil ydym ni o bob rhan o'r DU, ac ysgrifennwn atoch i leisio pryderon difrifol ynghylch y bygythiad y mae Bil Marchnad Fewnol y DU yn ei gyflwyno i'r setliadau datganoli, y rheol gyfreithiol a safonau uchel y DU mewn nifer o feysydd, gan gynnwys rheoliadau tai, iechyd a'r amgylchedd.

### **Y bygythiad i'r rheol gyfreithiol**

Pe bai Bil Marchnad Fewnol y DU yn cael ei ddeddfu, byddai'n torri'r gyfraith ryngwladol drwy roi'r pŵer i Weinidogion anghymeradwyo elfennau o Gytundeb Ymadael yr UE/DU, ac yn benodol, Protocol Gogledd Iwerddon. Mae'r cam hwn gan lywodraeth y DU yn un ofidus tu hwnt, yn un rydym yn ei wrthwynebu'n gryf ac yn un sydd dim ond yn cael ei liniaru rhywfaint gan y diwygiad i ddod a gynigir gan y llywodraeth. Yn ogystal, mae'r darpariaethau o dan Gymal 45 yn hepgor yr adolygiad barnwrol o reoliadau a wnaed o dan Gymalau 42 a 43 yn ôl pob golwg. Mae adolygiad barnwrol yn fesur diogelu cyfansoddiadol pwysig, ac mae'r Bil, fel y mae, yn bygwth rhwystro'r posibilrwydd o drosolwg cyfreithiol gan y llysoedd.

Mae Llywodraeth y DU wedi honni bod angen gwneud y newidiadau hyn ochr yn ochr â'r Protocol er mwyn sicrhau heddwch yng Ngogledd Iwerddon. Ond, y Protocol oedd wrth wraidd diogelu cytundeb Belfast/Dydd Gwener y Groglith a'r egwyddor o beidio â chael llai o hawliau wrth i'r DU ymadael â'r UE. Gallai'r Bil beryglu'r rôl hon, ac os yw llywodraeth y DU eisoes yn nodi eu bod yn barod i dorri eu hymrwymiaadau o dan y cytundeb hwn, cyn i'r cyfnod pontio hyd yn oed ddod i ben, nid yw'n argoeli'n dda ar gyfer dyfodol elfennau eraill o'r cytundeb hwnnw wrth i ni symud ymlaen.

### **Y bygythiad i ddatganoli**

Bydd y Bil hwn yn tansilio datganoli i raddau digyffelyb oherwydd nid yw'n cynnwys unrhyw ddull o gydbwyso'r ymrwymiad o ran mynediad i'r farchnad ag ymreolaeth reoleiddiol cenhedloedd datganoledig - o ganlyniad, bydd yn cael effaith ganoli gref. Bydd cwmpas gor-eang y dyletswyddau i gydnabod yn gilyddol a pheidio â gwahaniaethu a'r prinder difrifol o dystiolaeth i gyfiawnhau gofynion lleol yn anablu arloesedd polisi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynrychioli cost uchel, gan ystyried:

- Y diffyg tystiolaeth y bydd rhwystrau newydd i fasnach fewnol hyd yn oed yn ymddangos ar unwaith yn sgil y cyfnod pontio
- Yr anghymhelliad cynhenid i'r cenhedloedd datganoledig reoleiddio mewn modd a fyddai'n codi rhwystrau newydd pan na fyddai hyn o fudd iddynt
- Y gwaith cyfredol o ran fframweithiau cyfredin

Yn ogystal, nid yw'r Bil yn cydnabod fawr iawn o rôl i'r sefydliadau datganoledig yn y prosesau a ddylai fod yn rhai cydweithredol ac, fel y tystiolaethwyd gan gydnabyddiaeth y Papur Gwyn, nid yw'r setliadau datganoli cyfredol yn cynnwys cadw cymorth gwladwriaethol – mae Rhan 7 y Bil hwn yn mynd ati'n uniongyrchol i wiroi datganoli yn y maes hwn.

## **Y bygythiad i'r safonau**

Os caiff y Bil hwn ei ddeddfu fel y mae, bydd yn galluogi masnach o Loegr i osgoi safonau rheoleiddio datganoledig mewn amrediad eang o feysydd (gweler rhai astudiaethau achos sydd wedi'u hatodi i'r llythyr hwn). Bydd hyn, yn anuniongyrchol, yn atal y sefydliadau datganoledig rhag gwella safonau cyfredol a rhoi safonau uwch newydd ar waith a bydd hyd yn oed yn creu cymhelliant i leihau safonau er mwyn sicrhau bod busnesau lleol yn gallu cystadlu.

Mae angen mesurau diogelu cryf i atal ras i'r gwaelod, yn enwedig yn y DU, oherwydd yr anghydbwysedd economaidd a chyfansoddiadol rhwng Lloegr a'r cenhedloedd datganoledig. Eto i gyd, mae'r Bil hwn yn anarferol iawn yn hyn o beth, oherwydd nid yw'n cynnwys unrhyw gwmpas ar gyfer cyfiawnhau gofynion rheoleiddio ar sail safonau polisi, amgylcheddol a lles anifeiliaid, safonau llafur, buddiannau defnyddwyr na hyrwyddo a diogelu amrywiaeth diwylliannol.

## **Cydsyniad deddfwriaethol o'r deddfwrfeydd datganoledig**

Er nad oes sail gyfreithiol dros atal llywodraeth y DU rhag bwrw ymlaen â deddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion datganoledig pan nad oes ganddo gydsyniad deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig, mae, yn ôl adroddiad Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 'yn ffordd weithredu ddigynsail gyfansoddiadol'. Fel y gwelwyd yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Bil y Cytundeb Ymadael 2020, mae llywodraeth y DU wedi anwybyddu penderfyniadau deddfwrfeydd datganoledig i wrthod rhoi cydsyniad deddfwriaethol ac wedi bwrw ymlaen beth bynnag. Rydym ni'n poeni bod hyn yn gosod cysail peryglus lle y caiff gweinyddiaethau datganoledig eu hanwybyddu dro ar ôl tro o ran eu gwrthwynebiadau i ddeddfwriaeth sy'n sathru setliadau datganoli dan draed.

Bydd hyn yn niweidio'r ymddiriedaeth ymhellach o fewn y DU - sy'n rhag-amod hanfodol ar gyfer gweithredu marchnad fewnol yn briodol.

## **Pryder ynghylch y pwerau gwario yng Nghymal 46**

Mae'r Bil yn darparu pwerau gwario sylweddol i weinidogion mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, gan gynnwys meysydd a oedd yn cael eu cyllido'n flaenorol gan gyllid yr UE. Yn unol â'r diffyg ystyriaeth gyffredinol yn y Bil i ddiogelu buddiannau datganoledig, nid yw'n nodi rôl i'r llywodraethau datganoledig o ran darparu'r cyllid hwn. Mae cynnwys y pwerau hyn yn y Bil hwn yn destun pryder mawr i'r trydydd sector, oherwydd mae'n awgrymu symud y ffocws oddi ar gydraddoldeb a chydlyniant a'i roi ar wariant seilwaith y farchnad fewnol.

## **Diffyg craffu seneddol priodol**

Yn olaf, rydym ni hefyd yn poeni ynghylch yr hyn sydd wedi'i gyhoeddi hyd yma o ran y gwaith craffu seneddol ar y Bil. Mae hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth a fydd yn cael effaith arwyddocaol ar setliadau datganoli, y broses heddwch a'r gwaith o gynnal safonau rheoleiddio ledled y DU gyfan. Mae'r amserlen arferol ar gyfer deddfwriaeth yn llawer

hirach<sup>1</sup>. Nid yw'r llywodraeth wedi gallu darparu cyfiawnhad dros ruthro'r broses fel hyn, ac mae hyn yn golygu ei fod bron yn amhosibl i seneddwyr, yn ogystal â'r gymdeithas sifil, wneud gwaith craffu effeithiol a phriodol arno. Rydym wedi gofyn dro ar ôl tro i'r llywodraeth ymrwymo i waith craffu priodol ar Fil y Cytundeb Ymadael. Yn eu hymateb, dywedodd y llywodraeth eu bod yn 'cymryd eu hymrwymiad i graffu seneddol yn ddifrifol iawn'<sup>2</sup>. Torrodd y llywodraeth yr ymrwymiad hwnnw pan ruthrodd Ddeddf y Cytundeb Ymadael drwy'r Senedd ym mis Ionawr ac mae'n gwneud hynny eto gyda Bil Marchnad Fewnol y DU. O ganlyniad, maen nhw'n hepgor lleisiau'r gymdeithas sifil a rhanddeiliaid eraill yn y broses. Fel yr eglurwyd yn yr wythnos a aeth heibio, gall deddfu'n gyflym arwain at broblemau yn ddiweddarach<sup>3</sup>.

Ceir rhagor o fanylion ar y problemau hyn yn y [papur briffio ar y cyd](#).

Yn gywir,



<sup>1</sup> <https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainers/fast-tracked-legislation>

<sup>2</sup> [Llythyr agored at y Gwir Anrhydeddus Stephen Barclay AS gan Gynghrair Cymdeithas Sifil Brexit: 'The Withdrawal Agreement Bill and the Importance of Proper Legislative Scrutiny'](#) (Saesneg yn unig)

<sup>3</sup> [Huffington Post- 'Is This Boris Johnson's New Excuse For Breaking The Law? He Negotiated His Brexit Deal 'At Pace'](#) (Saesneg yn unig)

## **Atodiad: Astudiaethau Achos**

Nod yr astudiaethau achos canlynol yw dangos bod cyfiawnhad dros ddefnyddio dulliau gwahanol i reoleiddio ar lefel ddatganoledig yn aml a'u bod yn dilyn amcan clir er budd y cyhoedd. Byddai hyn yn cael ei danseilio'n llwyr gan Fil Marchnad Fewnol y DU oherwydd nid yw'n cynnig unrhyw gwmpas i gyfiawnhau'r dulliau hyn. Er bod gwahaniaethau sy'n bodoli'n cael eu hepgor, mae'r Bil yn dod â nhw o fewn cwmpas os ydynt yn cael eu diweddarau.

### **Astudiaeth Achos 1 – Gwahardd eitemau Plastig Untro penodol**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn ar hyn o bryd ac mae Llywodraethau'r DU wedi cyflwyno'u cynigion eu hunain. Mae cynigion Cymru yn cyd-fynd â Chyfarwyddeb Cynnyrch Plastig Untro yr UE a fyddai'n gwahardd naw cynnyrch, ond byddai cynigion y DU yn gwahardd tri chynnyrch yn unig. O ganlyniad, byddai cyllyll a ffyrc, platiau, ffyn balŵn, rhai cynwysyddion bwyd, rhai cwpanau a chynhyrchion diraddiadwy plastig, gan gynnwys rhai mathau o boteli a bagiau plastig - yn cael eu gwahardd yng Nghymru ond nid yn Lloegr. Byddai'r bil hwn yn galluogi cynhyrchwyr yn Lloegr i werthu'r cynhyrchion hyn yng Nghymru, heb ystyriaeth i safonau amgylcheddol uwch Cymru.

### **Astudiaeth Achos 2 – Safonau Bwyd**

Mae safonau bwyd yn cyd-fynd â'r UE i raddau helaeth ar hyn o bryd. Ar ôl y cyfnod pontio, y cenhedloedd datganoledig a Lloegr fydd yn gosod eu safonau eu hunain yn y maes hwn. Pe bai cenedl ddatganoledig yn dewis rheoleiddio i safon uwch, ni fydd yn gallu atal cynhyrchion safon is o ranbarthau eraill rhag cael eu gwerthu yn ei marchad – ac felly, byddai'r safon uwch yn ddibwrpas ac yn niweidiol i fusnesau lleol. Mae'r rhesymu hwn yn berthnasol i fewnforio hefyd – felly, os bydd y DU yn y pen draw yn sicrhau cytundeb masnach gyda'r Unol Daleithiau sy'n caniatáu iddynt fewnforio cyw iâr clorinedig neu gig eidion o wartheg sydd wedi cael hormonau, ni fydd y deddfwrfeydd datganoledig yn gallu atal y cynhyrchion hynny rhag cael eu gwerthu yn eu marchnadoedd, hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r safonau bwyd lleol.

Yn ogystal â hyn, byddai cydnabyddiaeth gilyddol hefyd yn atal gosod gofynion labelu er mwyn cynorthwyo defnyddwyr i wneud dewisiadau a rhoi gwybodaeth iddynt.

### **Astudiaeth Achos 3 – Dŵr Ffynnon wedi'i Botelu**

Yn rhinwedd Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015, mae gan Gymru ofynion penodol o ran dŵr wedi'i botelu – rhaid iddo gael ei labelu fel dŵr 'ffynnon' (rhaid iddo gael ei botelu yn y ffynhonnell a bodloni protocolau gwrth-halogi penodol). O dan yr egwyddorion hyn, gallai dŵr wedi'i botelu a gynhyrchir mewn rhannau eraill o'r DU gael ei werthu fel 'dŵr ffynnon' yng Nghymru, er nad yw'n bodloni'r gofynion hyn, sy'n groes i fuddiannau defnyddwyr Cymru.

### **Astudiaeth Achos 4 – Tai**

Mae gan Gymru ei safonau ei hun yn y maes hwn eisoes, sef Safon Ansawdd Tai Cymru, 'Homes for Life' a'r Gofynion Ansawdd Datblygu ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy a gyllidir gan grantiau. Yn yr un modd, mae gan yr Alban ei Rheoliadau Adeiladu ei hun, 'Social Housing Quality Standards', a'r 'Housing for Varying Needs Standards' sy'n llywio'r ffordd y caiff tai newydd eu dylunio a'u hadeiladu. O dan y cynigion hyn, gallai cwmnïau adeiladu o rannau eraill o'r DU osgoi'r safonau mewn un awdurdodaeth, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r rheini o ranbarth arall, hyd yn oed os oedd gwahaniaeth sylweddol yn lefel y safonau a oedd yn cael eu bodloni. Byddai hyn yn tanseilio dymuniadau Llywodraeth Cymru ei hun i weld Gofynion Ansawdd Datblygu yn datblygu ymhellach yng Nghymru ac yn gymwys ar draws pob ddeiliadaeth erbyn 2025.

Mae'r Bil hefyd yn cyfeirio at y broses o drwyddedu landlordiaid preifat fel gofyniad awdurdodi yn ôl pob golwg, sy'n golygu y byddai hyn yn destun cydnabyddiaeth gilyddol. O ganlyniad, ni fyddai landlord sydd wedi cofrestru mewn un rhan o'r DU yn gorfod bodloni gofynion lleol er mwyn darparu gwasanaethau.

### **Astudiaeth Achos 5 – Isafbris am Alcohol**

Mae Cymru a'r Alban wedi deddfu i gyflwyno isafbris am alcohol. Gwnaeth Llywodraeth yr Alban ddadlau'n llwyddiannus dros hyn er mwyn gwasanaethu budd iechyd y cyhoedd o dan gyfraith yr UE. Er nad yw hyn o fewn cwmpas y Bil gan ei fod yn ofyniad a oedd yn bodoli eisoes, mae'n debygol na fyddai wedi bod yn bosibl cyflwyno gofynion Cymru a'r Alban pe bai Bil y Farchnad Leol eisoes wedi bod mewn grym cyn hyn, oherwydd y trothwy uchel iawn sydd ei angen i lacio'r rheolau er budd iechyd y cyhoedd. Yn ogystal â hyn, byddai diweddariadau sylweddol, a allai gynnwys newid y pris fesul uned, er enghraifft, yn dod â'r ddeddfwriaeth o fewn y cwmpas, gan olygu na fyddai'n gymwys mwyach i fusnesau o Loegr - rhwystr mawr i wella polisi.